# Strategaeth Digartrefedd

# 2018 - 2022

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Yr Adroddiad Llawn

Hydref 2018

**Prif Gyswllt:** **Laura Paterson**
**E-bost:** **laura.paterson@arc4.co.uk**
**Rhif ffôn:** **0800 612 9133**
**Gwefan:** **www.ico4org.uk**

*© 2018 arc4 Limited (Rhif y Cwmni 06205180)*

Paratowyd yr Strategaeth Ddigartrefedd hon gan arc4 Cyf. ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'n darparu ymateb strategol i atal digartrefedd a chysgu ar y strydoedd yn Wrecsam

## Tabl Cynnwys

Rhagair .....**Error! Bookmark not defined.**

1. Cyflwyniad ..... 5

2. Ein Gweledigaeth .....**Error! Bookmark not defined.**

3. Adeiladu ar Lwyddiant .....**Error! Bookmark not defined.**

4. Crynodeb o Ganfyddiadau'r Adolygiad Digartrefedd .....**Error! Bookmark not defined.**

5. Agwedd Ranbarthol at Atal Digartrefedd .....**Error! Bookmark not defined.**

   Lleihau Digartrefedd yng Ngogledd Cymru – Amcanion Allweddol ..... 6

6. Sut fyddwn ni'n lleihau digartrefedd yn Wrecsam .....**Error! Bookmark not defined.**

   Blaenoriaethau Strategol .....**Error! Bookmark not defined.**

   Blaenoriaeth 1 – Datblygu Gwasanaeth Dewisiadau Tai Cadarn ac Effeithiol**Error! Bookmark not defi**

   Blaenoriaeth 2 – Darparu agwedd ymyrraeth gynnar ac atal**Error! Bookmark not defined.**

   Blaenoriaeth 3 – Gweithio i roi'r gorau i ddefnyddio llety gwely a brecwast a lleihau defnydd llety dros dro .....**Error! Bookmark not defined.**

   Blaenoriaeth 4 – Gwella a datblygu mynediad i ystod o ddatrysiadau tai parhaol ac wedi'u cefnogi.....**Error! Bookmark not defined.**

   Blaenoriaeth 5 – Rhoi diwedd ar yr angen i unrhyw un gysgu ar y stryd yn Wrecsam**Error! Bookmark**

   Blaenoriaeth 6 – Diwallu anghenion tai a chefnogaeth cleientiaid gydag anghenion niferus a chymhleth .....**Error! Bookmark not defined.**

7. Llywodraethu a Darparu'r Strategaeth Ddigartrefedd .....**Error! Bookmark not defined.**

8. Comisiynu Gwasanaethau Digartrefedd .....**Error! Bookmark not defined.**

Atodiad 1: Cyd-destun Strategol.....**Error! Bookmark not defined.**

   Y Cyd-destun Strategol Cenedlaethol .....**Error! Bookmark not defined.**

   Y Cyd-destun Strategol Rhanbarthol a Lleol .....**Error! Bookmark not defined.**

# Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Strategaeth Ddigartrefedd gyntaf Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Mae'r rhesymau dros fod yn ddigartref neu dan fygythiad digartrefedd yn lluosog ac yn aml yn gymhleth iawn. Mae gan lawer o bobl anghenion amrywiol sy'n ymestyn y tu hwnt i'r angen sylfaenol am gartref. Nid yw'n bosibl i'r Cyngor ddiwallu'r anghenion hynny ar eu pen eu hunain, ond yn hytrach mae agwedd strategol at atal digartrefedd yn dibynnu ar ymateb amlasiantaeth wedi'i gydlynu, gan sicrhau y rhoddir y cyngor a'r gefnogaeth gywir ar yr adeg cywir.

Mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn wynebu heriau sylweddol wrth ymateb i lefelau cynyddol o ddigartrefedd a chysgu ar y stryd, yn erbyn cefnlen diwygio'r gyfundrefn les a lefelau rhent preifat a phrisiau tai cynyddol.

Bydd cwrdd â'r her yn gofyn am newid sylfaenol yn y modd rydym yn gweithio; ni fydd parhau fel o'r blaen yn cyflawni'r lleihad mewn digartrefedd a chysgu ar y stryd yr ydym angen ei gyflawni.

Mae angen i Wrecsam weithio gyda phartneriaid i ddatblygu diwylliant newydd ar gyfer ymateb i ddigartrefedd. Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth ar gyfer digartrefedd a chyflawni ein hamcanion, mae angen i ni fabwysiadu agwedd sylfaenol wahanol ac ailgynllunio gwasanaethau yn unol â hyn.

Mae ein Strategaeth Ddigartrefedd yn canolbwyntio ar atal pobl rhag dod yn ddigartref yn y lle cyntaf a helpu pobl ddigartref i greu dyfodol mwy positif.

Bydd ein ffocws ar atal yn golygu gweithio yn agosach gyda phobl gan ddefnyddio gwasanaethau i ddeall eu cryfderau, a'u cefnogi yn holistaidd i gyflawni eu nodau. Dros oes y strategaeth byddwn yn adeiladu ar wasanaethau cyfredol ac yn gwella darpariaeth gwasanaethau yn barhaus.

Dyma gyfle cyffrous gyda chyfleoedd i drawsnewid ein hagwedd at fynd i'r afael â digartrefedd a rhoi terfyn ar yr angen i unrhyw un gysgu ar y stryd. Ond, mae ein hamcanion yn heriol, ac er mwyn eu cyflawni rydym angen gweithio yn agosach gyda'n partneriaid i'w gwneud yn realiti a thrawsnewid bywydau llawer o'n preswylwyr.

Mae ein gweledigaeth yn syml – "Gweithio mewn partneriaeth i atal a lleihau digartrefedd, ac atal yr angen i unrhyw un gysgu ar y stryd." Mae'r Strategaeth hon yn adlewyrchu ein hymrwymiad cryf i wireddu'r weledigaeth hon.

**Cynghorydd David Griffiths**

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae atal digartrefedd a mynd i'r afael yn effeithiol â'r angen i gysgu ar y stryd yn flaenoriaeth allweddol i Gyngor Wrecsam a'i sefydliadau partner.

1.2 Mae digartrefedd yn symptom o ryngweithio cymhleth rhwng sefyllfa penodol y person ac ystod o ffactorau strwythurol a chymdeithasol sy'n aml y tu hwnt i'w rheolaeth.

1.3 Er mwyn mynd i'r afael â digartrefedd yn llwyddiannus, mae angen i ni ddod o hyd i ffyrdd newydd o fynd i'r afael ag achosion digartrefedd. Mae angen cyfuno hyn â'r ffocws newydd ar atal a fydd yn cynnwys gweithio yn agosach gyda defnyddwyr gwasanaeth i ddeall eu cryfderau a'u cefnogi yn holistaidd i gyflawni eu nodau.

1.4 Roedd gweithredu Deddf Tai (Cymru) 2014 yn arwain at newid deddfwriaethol a diwylliannol yn ymateb y Cyngor i ddigartrefedd. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ceisio ymyrryd yn gynnar ac atal digartrefedd lle bynnag y bo'n bosibl gan ganolbwyntio ar ddarparu atebion wedi'u teilwra yn unigol gyda chwsmeriaid. Os na ellir atal digartrefedd, mae'r Cyngor yn gweithio i gefnogi unigolion yn gyflym a'u lleoli mewn llety priodol a chynaliadwy.

1.5 Dyma Strategaeth Ddigartrefedd gyntaf Wrecsam yn dilyn gweithredu Deddf Tai (Cymru) 2014. Bydd y strategaeth ar gyfer 2018-22 yn adeiladu ar lwyddiannau Gwasanaeth Dewisiadau Tai'r Cyngor hyd yma, ac yn ceisio datblygu a gwella gwasanaethau a chynlluniau presennol ymhellach.

1.6 Mae'r strategaeth wedi'i datblygu mewn ymgynghoriad ag asiantaethau partneriaeth a chwsmeriaid. Mae'r Cyngor yn cydnabod na ellir mynd i'r afael â digartrefedd wrth i'r Awdurdod Lleol weithio yn ynysig, ac yn hytrach mae'n dibynnu ar gydweithio effeithiol rhwng yr Awdurdod Lleol a'r holl sefydliadau sy'n gweithio i atal ac ymateb i ddigartrefedd.

1.7 Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gorchymyn fod pob awdurdod lleol yn cynnal adolygiad o ddigartrefedd yn eu hardal ac yn llunio a chyhoeddi strategaeth ddigartrefedd yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adolygiad.

1.8 Dan y Ddeddf, mae'n rhaid i'r Strategaeth Ddigartrefedd geisio cyflawni'r amcanion a ganlyn yn ardal yr awdurdod tai lleol:

a) Atal digartrefedd

b) Sicrhau fod llety addas ar gael ac y bydd ar gael i bobl sydd yn neu a allai ganfod eu hunain yn ddigartref

c) Sicrhau bod cymorth boddhaol ar gael i bobl sydd yn neu a allai ganfod eu hunain yn ddigartref.

1.9 Mae'r strategaeth wedi'i datblygu mewn ymateb i ganfyddiadau Adolygiad Digartrefedd 2018, sy'n rhoi dealltwriaeth gynhwysfawr o ddigartrefedd yn Wrecsam. Mae'r Adolygiad Digartrefedd wedi nodi materion a bylchau mewn darpariaeth gwasanaeth, a bydd y strategaeth yn ceisio mynd i'r afael â hyn.

1.10 Os mai ein bwriad yw mynd i'r afael ag achosion craidd digartrefedd; tlodi ac anfantais, diweithdra, iechyd a lles gwael a diffyg mynediad at gartrefi fforddiadwy a chynaliadwy, mae agwedd partneriaeth yn sylfaenol. Mae gan lawer o bobl anghenion amrywiol sy'n ymestyn y tu hwnt i'r angen sylfaenol am gartref. Nid yw'n bosibl i'r Cyngor ddiwallu'r anghenion hynny ar eu pen eu hunain, ond yn hytrach mae agwedd strategol at atal digartrefedd yn dibynnu ar ymateb amlasiantaeth wedi'i gydlynu.

1.11 Dylid edrych ar y strategaeth hon fel dogfen amlasiantaeth. Mae'r Cyngor wedi gweithio yn agos gyda'i bartneriaid trwy'r Grŵp Llywio Atal Digartrefedd i lunio'r strategaeth hon. Y bwriad yw bod y strategaeth yn gynhwysol yn ei hagwedd a bod asiantaethau partneriaeth yn gweithio yn agos gyda'r Cyngor i gynorthwyo gyda'i darpariaeth.

1.12 Bydd y strategaeth yn ymdrin â'r cyfnod 2018 i 2022 a bydd yn cael ei monitro a'i hadolygu gan y Grŵp Llywio Atal Digartrefedd, ynghyd â systemau rheoli perfformiad mewnol y Cyngor. Bydd Fforwm Digartrefedd Wrecsam yn chwarae rhan allweddol yn narpariaeth y cynllun gweithredu Strategaeth Ddigartrefedd.

# 2. Ein gweledigaeth

2.1 Gweledigaeth Wrecsam yw

Gweithio mewn partneriaeth i atal a lleihau digartrefedd, ac atal yr angen i unrhyw un gysgu ar y stryd

2.2 Datblygwyd y weledigaeth mewn partneriaeth â phartneriaid allweddol sydd ynghlwm â darparu gwasanaethau tai a digartrefedd. Wrth ddarparu'r strategaeth, byddwn yn gofyn i'r holl bartneriaid allweddol sy'n gweithio yn Wrecsam i ymrwymo i'r weledigaeth hon.

2.3 Mae'r strategaeth wedi'i seilio ar yr amcanion a ganlyn

2.4 Ein hamcanion yw:

- Atal digartrefedd trwy gynnig cymorth a chefnogaeth realistig, amserol ac o ansawdd uchel ynghyd â chymorth ymarferol.
- Datblygu agwedd arfer gorau i ddileu'r angen i gysgu ar y stryd.
- Mewn partneriaeth, nodi a mynd i'r afael ag achosion sylfaenol digartrefedd.
- Os yw digartrefedd yn digwydd, rhoi cefnogaeth a chymorth i ganfod a chynnal cartrefi addas.
- Gwneud atal digartrefedd yn gyfrifoldeb ar bawb.
- Adeiladu ar gryfderau ac asedau ein cleientiaid, gan roi grym i unigolion ac adeiladu gwytnwch, tra'n hyrwyddo dewis ac agwedd sy'n canolbwyntio ar y person.
- Monitro a gwerthuso ein perfformiad yn barhaus i sicrhau darpariaeth gwasanaeth o ansawdd uchel.

2.5 Dros oes y Strategaeth ein nod yw:

- Sicrhau na ddylai unrhyw un orfod cysgu ar y stryd yn Wrecsam
- Darparu Gwasanaeth Dewisiadau Tai o'r radd flaenaf
- Lleihau cyflwyniadau argyfwng
- Sicrhau bod digartrefedd yn cael ei atal lle bynnag y bo'n bosibl trwy ddarparu cynlluniau tai personol pwrpasol a mynediad i lety fforddiadwy a chynaliadwy
- Lleihau nifer yr aelwydydd sy'n byw mewn llety dros dro
- Ceisio rhoi terfyn ar y defnydd o letyau gwely a brecwast ar gyfer pob aelwyd digartref.
- Sicrhau bod gwasanaethau cefnogi yn ymwneud â thai ar gael i ddiwallu anghenion amrywiol a chymhleth ein poblogaeth ddigartref

- Cynyddu darpariaeth ac ystod y dewisiadau llety sydd ar gael i bobl sengl ddigartref.

2.6 Mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i gyflawni'r weledigaeth a'n hamcanion.

# 3. Adeiladu ar Lwyddiant

3.1 Er bod gennym ychydig o ffordd i fynd i gyflawni ein gweledigaeth, mae'r Strategaeth Ddigartrefedd wedi'i seilio ar agwedd lwyddiannus at atal digartrefedd ar ôl cyflwyno Deddf Tai (Cymru) 2014. Mae'r llwyddiannau hyn wedi'u cyflawni trwy agweddau partneriaeth llwyddiannus ac yn cynnwys:

- Sefydlu Grŵp Llywio Atal Digartrefedd amlasiantaeth.
- Cyfraniad at Amcanion Digartrefedd Rhanbarthol
- Ailstrwythuro'r tîm Dewisiadau Tai mewn ymateb i ofynion Deddf Tai (Cymru) 2014.
- Cyflwyno cynlluniau tai personol.
- Cydweithio effeithiol rhwng y timau Dewisiadau Tai a Cefnogi Pobl i atal digartrefedd yn effeithiol
- Datblygu Asiantaeth Osod Leol lwyddiannus, gyda staff achrededig y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar Gyfer Tai
- Atal a lliniaru digartrefedd trwy gynorthwyo aelwydydd i gael llety yn y sector rhentu preifat.
- Cyflwyno Gweithdrefn Argyfwng Tywydd Garw.
- Porth Sengl Cefnogi Pobl i gael mynediad i'r holl ddarpariaeth â chefnogaeth yn y Sir.
- Gweithiwr iechyd meddwl estyn allan yn gweithio yn y gwasanaeth Dewisiadau Tai
- Sefydlu gwasanaeth estyn allan mewnol.
- Datblygu gwasanaeth Un Pwynt Mynediad ar gyfer unigolion digartref 16 ac 17 oed
- Cais ariannu llwyddiannus i ddatblygu cartref cynhwysydd ar gyfer pobl digartref
- Perthynas weithio gadarnhaol gyda Shelter
- Cydleoli gydag ystod o asiantaethau allweddol
- Ynghlwm yn natblygiad cyfeirlyfr cynllun mynediad rhentu preifat Cymru
- Elfennau o'r cynllun peilot Tai yn Gyntaf wedi'i fewnosod
- Datblygu cyngor amlasiantaeth i bobl sy'n cysgu ar y stryd
- Swyddog Cyswllt Carchar penodedig
- Gweithiwr estyn allan mewnol sy'n gweithio gyda phobl sy'n cysgu ar y stryd
- Sefydlu Cyfarfod Darparwyr i ddatblygu ymateb gweithredol i fynd i'r afael â chysgu ar y stryd

3.2 Cyflawnwyd y llwyddiannau hyn trwy'r flaenoriaeth uchel a roddwyd ar atal digartrefedd a'r gwaith parhaus i ddarparu datrysiadau digartrefedd ymarferol. O ganlyniad, datblygwyd rhwydwaith cryf o bartneriaethau a gwasanaethau i gefnogi'r rhai sydd naill ai dan fygythiad digartrefedd neu'n profi digartrefedd.

# 4. Crynodeb o Ganfyddiadau'r Adolygiad Digartrefedd

4.1 Mae'r Strategaeth yn seiliedig ar ganfyddiadau adolygiad cynhwysfawr o ddigartrefedd yn Wrecsam a gynhaliwyd gan arc4. Roedd hyn yn cynnwys ymchwil sylfaenol a dadansoddiad pen desg manwl o ddata gan y Cyngor ac asiantaethau eraill i nodi problemau a thueddiadau allweddol. Mae'r dadansoddiad hwn wedi'i ategu gan ddata ehangach ar y boblogaeth yn Wrecsam, ffactorau economaidd, anghydraddoldeb iechyd, a'r farchnad dai, ochr yn ochr ag ymgynghoriad helaeth gyda budd-ddeiliaid a chwsmeriaid.

4.2 Mae'r Adolygiad Digartrefedd yn rhoi dealltwriaeth manwl iawn o lefelau ac achosion digartrefedd yn Wrecsam, ynghyd â throsolwg o'r gwasanaethau sydd ar gael i'r rhai sy'n ddigartref neu dan fygythiad digartrefedd. Mae'r Adolygiad yn darparu'r dystiolaeth ar gyfer datblygu'r Strategaeth Ddigartrefedd hon.

4.3 Y canfyddiadau allweddol o'r Adolygiad Digartrefedd yw

- Mae fforddiadwyedd yn fater arwyddocaol mewn rhannau o Wrecsam o ran meddiannu gan berchnogion a rhentu preifat. Mae lefelau isel o incwm a dibyniaeth ar fudd-daliadau ymysg aelwydydd sydd angen tai yn gwaethygu'r broblem ymhellach.
- Prif achosion digartrefedd yn Wrecsam yw: colli llety rhent neu glwm, gadael y carchar, rhieni, perthnasau a ffrindiau ddim yn fodlon darparu ar eu cyfer bellach, tor perthynas, a chamdriniaeth ddomestig.
- Mae angen datblygu ystod o ddulliau atal sy'n canolbwyntio ar atal prif achosion digartrefedd.
- Mae'r gwasanaeth Dewisiadau Tai wedi cael llwyddiant wrth atal digartrefedd trwy gynorthwyo aelwydydd i gael mynediad i lety arall. Ond, mae angen gwneud gwaith pellach i gynnwys agwedd atal rhagweithiol, gyda phwyslais arbennig ar alluogi aelwydydd i aros yn eu llety presennol.
- Mae gwybodaeth yn awgrymu fod yna alw cynyddol am y gwasanaeth Dewisiadau Tai yn dilyn gweithredu Deddf Tai (Cymru) 2014, ond mae angen cyflwyno system gofnodi effeithio er mwyn deall y gwir alw am y gwasanaeth.
- Mae angen adolygu llwyth achosion, strwythurau ac adnoddau i sicrhau fod llwyth achosion yn parhau ar lefel y mae modd ei reoli a sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl ar gyfer atal digartrefedd yn effeithiol. I gyflawni hyn mae'n bosibl y bydd angen buddsoddi mwy o adnoddau mewn gwaith atal rheng flaen a gwaith lliniaru.
- Mae angen adolygu systemau, prosesau, gweithdrefnau a gwaith papur i sicrhau eu bod yn effeithiol a chyfredol. Bydd yr adolygiad hwn o gymorth i ganfod sut y gellir defnyddio adnoddau o fewn y tîm yn fwy effeithiol i gyflawni gwell canlyniadau i gwsmeriaid.
- Mae angen lleihau'r niferoedd uchel o bobl sy'n cael mynediad i'r gwasanaeth yn y pwynt argyfwng, i wneud y gorau o gyfleoedd ar gyfer atal effeithiol ac ymyrryd yn gynnar.

- Mae’r defnydd o lety dros dro a llety Gwely a Brecwast wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Bydd angen ymgymryd â gwaith i leihau'r niferoedd hyn, a sicrhau mewnbwn effeithiol a symud ymlaen.
- Mae angen canfod llety dros dro mwy addas fel nad oes rhaid defnyddio lleoedd Gwely a Brecwast. Mae angen gwaith pellach i ddeall gofynion llety dros dro yn llawn, a sut fyddai orau i ddiwallu'r rhain.
- Mae cyfran uchel iawn o bobl sengl sy’n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd. Bydd angen datblygu dewisiadau tai penodol a datrysiadau atal er mwyn diwallu anghenion pobl sengl, gan gynnwys y rhai na fyddent yn y categori angen blaenoriaethol.
- Caiff pobl ifanc eu gor-gynrychioli yn yr ystadegau digartrefedd a’r data cefnogi pobl, o'u cymharu â'r data poblogaeth, sy’n dangos diffyg dewisiadau tai addas a fforddiadwy i bobl ifanc. Hefyd mae’n dangos fod pobl ifanc mewn mwy o berygl o ddod yn ddigartref.
- Mae angen ymagwedd holistaidd sy’n cynnwys cefnogaeth yn ymwneud â; dyled, rheoli arian, gwytnwch a diweithdra. Mae angen i’r agwedd hon gychwyn yn y cam asesu a pharhau hyd at ddarparu’r Cynlluniau Tai Personol.
- Mae nifer uchel iawn o achosion cymhleth, gan gynnwys pobl sengl a theuluoedd gydag anghenion niferus a heriol. Mae’r gwasanaeth Datrysiadau Tai wedi ei chael yn anodd canfod datrysiadau cynaliadwy ar gyfer yr aelwydydd hyn. Mae angen gwell dealltwriaeth ansoddol a meintiol o’r materion hyn, yn ogystal â dealltwriaeth o a yw’r ddarpariaeth bresennol yn diwallu anghenion y cwsmeriaid hyn.
- Mae angen gwella ymwybyddiaeth ynglŷn â'r Gwasanaeth Dewisiadau Tai a gwasanaethau eraill sydd ar gael ar draws Wrecsam i sicrhau fod partneriaid a chwsmeriaid yn ymwybodol o’r hyn sydd ar gael a sut i'w defnyddio. Mae hyn yn hynod o bwysig os am gyflawni ymyrraeth gynnar ac atal.
- Mae lefelau uchel o droi allan o dai cymdeithasol oherwydd ôl-ddyledion rhent. Mae’n hanfodol bod tenantiaid tai cymdeithasol yn gallu cael cyngor ynglŷn â dyledion ac arian ochr yn ochr â datblygu gweithdrefn cyn troi allan.
- Mae lefel uchel iawn o gysgu ar y stryd yn Wrecsam, yn grynoedig yng nghanol y dref, ac mae cydberthynas cryf rhwng cysgu allan a defnydd Sylweddau Seicoweithredol Newydd (NPS).
- Mae angen cynnal adolygiad cynhwysfawr yn ymwneud â chysgu allan i ddeall y materion yn ymwneud â chysgu allan yn Wrecsam mewn mwy o fanylder. Hefyd byddai’n asesu'r ddarpariaeth bresennol yn erbyn yr arfer gorau ac yn canfod pa newidiadau, os unrhyw rai, sydd eu hangen i leihau'r arfer o gysgu allan yn sylweddol.
- Mae lefelau uchel o alw am Lety â Chymorth. Gall symud ymlaen o Dai â Chymorth fod yn broblemus, gyda nifer o bobl sengl yn ei chael yn anodd canfod llety fforddiadwy ac addas i symud ymlaen.

- Mae angen datblygu gwell dewisiadau a darpariaeth i bobl sengl, yn benodol ar gyfer pobl dan 35 oed, gan gynnwys llety, rhannu tŷ, a llety un ystafell/tai amlfeddianaeth o ansawdd.
- Mae cyn garcharorion yn nifer sylweddol iawn o'r cwsmeriaid Dewisiadau Tai. Mae angen sicrhau fod y Llwybr Carcharorion yn gweithio'n llawer mwy effeithiol gan arwain at ymagwedd mwy cydgysylltiedig a gwell cymorth i bobl sy'n gadael y carchar.
- Bydd effaith diwygio'r gyfundrefn les, yn erbyn cefndir o hinsawdd economaidd anodd, a dyledion personol yn parhau i gyflwyno heriau penodol a'i gwneud hyd yn oed yn bwysicach fod gwasanaethau ar gyfer y rhai hynny sydd mewn perygl o, neu'n profi, digartrefedd, mor effeithiol a bo modd. Mae angen gweithio mewn partneriaeth gydag ystod o asiantaethau allweddol i baratoi cleientiaid ar gyfer newidiadau pellach i fudd-daliadau lles, a chanfod amrediad o strategaethau i atal digartrefedd o ganlyniad i ddiwygio'r gyfundrefn les.
- Mae angen adolygiad annibynnol i ystyried sut y dylid cyflawni swyddogaethau'r Gofrestr Dai a Dyraniadau. Fel rhan o hyn, dylid ystyried lleoli'r swyddogaeth hon gyda Dewisiadau Tai, gan greu model darpariaeth integredig gan sicrhau bod y cwsmer yn ffocws canolog i ddarpariaeth gwasanaeth; lle gellir diwallu eu holl ddewisiadau tai, gan gynnwys mynediad at dai cymdeithasol, dan un to.
- Nododd ymgynghoriad â chwsmeriaid bod gan y mwyafrif helaeth o gwsmeriaid brofiad cadarnhaol o'r gwasanaeth Datrysiadau Tai. Ond, mae ymatebion yn nodi bod diffyg cyswllt parhaus o'r gwasanaeth.

4.4 Gellir dod o hyd i Grynodeb Gweithredol o'r Adolygiad Digartrefedd yma dolen gyswllt

4.5 Mae'r Adolygiad Digartrefedd llawn ar gael ar gais o dolen gyswllt

# 5. Agwedd Ranbarthol at Atal Digartrefedd

5.1 Mae'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael â digartrefedd yn y rhanbarth, ac wedi datblygu Strategaeth Ddigartrefedd a fydd wedi'i chefnogi gan chwe chynllun gweithredu darpariaeth lleol.

5.2 Mae'r Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol yn ceisio:

- Datblygu agwedd ranbarthol at fynd i'r afael â digartrefedd yng Ngogledd Cymru
- Rhannu arfer gorau yn y rhanbarth
- Datblygu gwasanaethau a rennir a chydweithio lle bo'n bosibl
- Datblygu gwell dealltwriaeth o achosion digartrefedd trwy gipio data yn well ar draws y rhanbarth
- Lleihau digartrefedd yng Ngogledd Cymru

5.3 Mae'r Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol yn ceisio lleihau digartrefedd yng Ngogledd Cymru ar draws y themâu Pobl, Cartrefi a Gwasanaethau.



5.4 Yr ymrwymiad strategol craidd gan y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru yw creu diwylliant o well cydweithio ar draws y rhanbarth, gan fynd i'r afael â'r materion penodol sy'n arwain at ddigartrefedd yng Ngogledd Cymru.

5.5 Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n hawdurdodau cyfagos yng Ngogledd Cymru i leihau digartrefedd a chreu llwybrau di-dor i gwsmeriaid sy'n ceisio mynediad i wasanaethau yng Ngogledd Cymru.

5.6 Mae ein hymateb leol at ddigartrefedd wedi'i chynnwys yn y Strategaeth hon ac wedi'i seilio ar flaenoriaethau Strategaeth Ddigartrefedd Gogledd Cymru. Mae'r Strategaeth yn nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio yn rhanbarthol, ynghyd ag ymateb wedi'i dargedu at fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn Adolygiad Digartrefedd Wrecsam.

# 6. Sut fyddwn ni'n lleihau digartrefedd yn Wrecsam

6.1 Mae'r lefel digynsail o gysgu ar y stryd yn Wrecsam, ynghyd â lefelau cynyddol digartrefedd a'r pwysau ar y farchnad dai yn awgrymu bod angen agwedd cwbl wahanol bellach, sy'n cymell newid i'r system gyfan i fynd i'r afael â digartrefedd yn llwyddiannus.

6.2 Ni ddylid amcangyfrif yn rhy isel maint a chymhlethdod y materion sy'n wynebu'r Cyngor a'i bartneriaid dros oes y strategaeth, ac mae'r rhain yn cynnwys cynnydd cenedlaethol mewn digartrefedd a chysgu ar y stryd, pwysau ar gyllidebau ac effaith Credyd Cynhwysol, yn erbyn marchnad dai sy'n gynyddol anfforddiadwy ac anhygyrch.

6.3 Mae angen i Wrecsam weithio gyda phartneriaid i ddatblygu diwylliant newydd ar gyfer ymateb i ddigartrefedd.

6.4 Mae ein Strategaeth Digartrefedd yn canolbwyntio ar atal pobl rhag dod yn ddigartref yn y lle cyntaf a helpu pobl digartref i greu dyfodol mwy positif.

6.5 Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth ar gyfer digartrefedd a chyflawni ein hamcanion, mae angen i ni fabwysiadu agwedd sylfaenol wahanol ac ailgynllunio gwasanaethau yn unol â hyn.

6.6 Mae ein hagwedd at hyn wedi'i amlinellu gan yr egwyddorion a ganlyn:

## Cyfeiriad strategol a phartneriaethau

6.7 Rydym yn cydnabod mai agwedd partneriaeth yw'r unig ffordd y gallwn fynd i'r afael â digartrefedd yn llwyddiannus. Datblygwyd y Strategaeth hon gyda phartneriaid i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol digartrefedd a chreu llwybrau effeithiol allan o ddigartrefedd.

6.8 Byddwn yn darparu arweiniad strategol a gweithio gyda phartneriaid i ddarparu ein gweledigaeth a'n hamcanion i fynd i'r afael â digartrefedd yn Wrecsam. Byddwn yn cydlynu a chefnogi ymateb strategol i ddigartrefedd sy'n darparu canlyniadau gwell a wedi'u cydlynu i gwsmeriaid.

## Cyd-gomisiynu yn seiliedig ar anghenion wedi'u nodi

6.9 Byddwn yn gweithio i ddeall anghenion cyfredol a'r dyfodol ac yn gweithio i gyd-gomisiynu gwasanaethau sy'n diwallu'r anghenion hyn, gyda ffocws clir ar wella gwerth am arian, gwell ansawdd a darparu gwell canlyniadau i gwsmeriaid. Byddwn yn gweithio i gomisiynu gwasanaethau seicolegol wybodus sy'n cydnabod y straen a'r trawma y mae llawer o bobl ddigartref yn ei brofi. Byddwn yn ailgynllunio gwasanaethau o gwmpas anghenion ein cwsmeriaid.

## Gwneud atal digartrefedd yn gyfrifoldeb ar bawb

6.10 Mae gan bob asiantaeth swyddogaeth a chyfrifoldeb i atal digartrefedd. Ochr yn ochr â mynd i'r afael ag achosion sylfaenol digartrefedd, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid a chymunedau lleol i sicrhau y gellir deall a nodi'r pwyntiau sbardun ar gyfer digartrefedd. Trwy gymryd yr agwedd hon yn Wrecsam, rydym yn ceisio lleihau argyfwng yn sylweddol a sicrhau bod agweddau atal digartrefedd effeithiol yn eu lle.

## Mabwysiadu ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

6.11 Mae ein hagwedd yn cydnabod cryfderau ac asedau unigolion, ac yn ceisio adeiladu ar y cryfderau hyn, gan roi grym i unigolion wella gwytnwch. Byddwn yn gweithio gyda phobl â phrofiad i ddod yn gyd-gynhyrchwyr atebion atal effeithiol.

## Blaenoriaethau Strategol

6.12 Mae'r strategaeth 4 blynedd yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 2018 a 2022, ac yn ceisio cryfhau'r agwedd bartneriaeth at fynd i'r afael â digartrefedd yn Wrecsam a mewnosod ein hagwedd newydd at fynd i'r afael â digartrefedd. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy fabwysiadu'r egwyddorion a ganlyn. Mae camau gweithredu allweddol ym mhob un o'r blaenoriaethau wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredu Strategaeth Ddigartrefedd.

6.13 Mabwysiadwyd y blaenoriaethau strategol a ganlyn ac maent yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Adolygiad Digartrefedd, ac yn cysylltu â Strategaeth Ddigartrefedd Rhanbarthol Gogledd Cymru.

| | | |
|---|---|---|
| **Gwasanaethau** | Blaenoriaeth 1 - | Datblygu Gwasanaeth Dewisiadau Tai cadarn ac effeithiol |
| | Blaenoriaeth 2 - | Darparu agwedd ymyrraeth gynnar ac atal wedi'i thargedu |
| **Cartrefi** | Blaenoriaeth 3 - | Gweithio i roi'r gorau i ddefnyddio llety gwely a brecwast a lleihau defnydd llety dros dro |
| | Blaenoriaeth 4 - | Gwella a datblygu mynediad i ystod o atebion tai parhaol ac wedi'u cefnogi |
| **Pobl** | Blaenoriaeth 5 - | Rhoi diwedd ar yr angen i unrhyw un gysgu ar y stryd yn Wrecsam |
| | Blaenoriaeth 6 - | Diwallu anghenion tai a chefnogaeth cleientiaid gydag anghenion niferus a chymhleth |

## Blaenoriaeth 1 - Datblygu Gwasanaeth Dewisiadau Tai Cadarn ac Effeithiol

6.14 Rydym yn cydnabod mai ymyrraeth gynnar ac atal yw'r allwedd i fynd i'r afael â digartrefedd yn lwyddiannus, yn ogystal â mynd i'r afael â'i achosion sylfaenol.

6.15 Yn hanfodol i'r agwedd hon yw darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid sy'n gweithio gyda chwsmeriaid i ddatblygu cynlluniau tai personol sy'n adeiladu ar eu cryfderau. Trwy'r agwedd hon rydym yn ceisio rhoi grym i unigolion, trwy gydweithio i nodi eu cryfderau a'u helpu i adeiladu gwytnwch i atal digartrefedd rhag digwydd eto.

6.16 Mae darparu cyngor tai o ansawdd da yn brydlon, ac ymyraethau effeithiol yn hanfodol i fedru atal digartrefedd yn effeithiol. Nododd tystiolaeth o'r Adolygiad Digartrefedd bod cyfran fawr o gwsmeriaid yn dod at y gwasanaeth mewn argyfwng, gan golli cyfleoedd i wneud gwaith atal digartrefedd.

6.17 I wella cyfleoedd ar gyfer atal digartrefedd yn effeithiol, mae'n hanfodol bod cwsmeriaid yn cysylltu â'r gwasanaeth Dewisiadau Tai cyn gynted ag y byddant yn dechrau cael problemau tai. Felly, byddwn yn buddsoddi mewn ymgyrch gwella ymwybyddiaeth i wella proffil y gwasanaeth yn fewnol yn y Cyngor, gyda phartneriaid a'r cyhoedd. Yn ogystal â hyn byddwn yn datblygu adnoddau, gan gynnwys cyngor ar y we a thaflenni ffeithiau i roi grym i unigolion ddatrys eu problemau tai eu hunain. Yn y tymor hir, bydd pecyn Datrysiadau Tai TGCh rhyngweithiol yn gallu rhoi cynlluniau tai personol a phwrpasol i gwsmeriaid.

6.18 Rydym angen sicrhau pan fo pobl yn cysylltu â'r Gwasanaeth Dewisiadau Tai i gael cymorth bod gennym y gallu i ymateb yn effeithiol ac yn brydlon i'r ceisiadau hyn am gymorth, naill ai trwy eu galluogi i aros lle y maent, neu trwy hwyluso symud i lety mwy priodol. Byddwn yn sicrhau bod gennym yr adnoddau cywir yn y mannau cywir i ddiwallu'r angen hwn, gyda systemau effeithiol a phrosesau i gefnogi darpariaeth gwasanaeth, a ffocws cryf ar well canlyniadau i gwsmeriaid.

6.19 I ddarparu gwasanaeth cwsmer effeithiol mae angen i ni sicrhau y gellir diwallu holl anghenion y cwsmer o dan yr un to. I'r perwyl hwn byddwn yn archwilio'r angen i alinio dyraniadau a dewisiadau tai er mwyn darparu gwasanaeth symlach â ffocws i greu taith di-dor i gwsmeriaid.

6.20 Bydd ein hymateb i ddigartrefedd hefyd yn darparu mynediad i wasanaethau eraill sy'n hybu addysg, hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth, gwasanaethau iechyd, sgiliau bywyd, cyngor ar ddyledion a chyllid a chyngor budd-daliadau. Bydd y rhain yn cryfhau cyfleoedd pobl o ddatrys eu problemau tai, ac atal digartrefedd rhag digwydd eto.

6.21 Fel y mae'r strategaeth yn ei bwysleisio, mae angen agwedd partneriaeth at fynd i'r afael â digartrefedd. Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau partner i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael cyngor o ansawdd ar dai, eu bod yn cael eu hatgyfeirio at y tîm Dewisiadau Tai ar yr adeg priodol a bod gwasanaethau yn cydweithio i ddarparu pecyn cyfannol o gyngor a chymorth. Byddwn yn parhau i nodi cyfleoedd i gydleoli gwasanaethau ac yn ychwanegu at lwyddiant y Canolbwynt Gofal. Byddwn yn datblygu protocolau ymhellach gyda phartneriaid allweddol, yn cwblhau hyfforddiant ar y cyd a sicrhau bod trefniadau atgyfeirio effeithiol yn eu lle i gynorthwyo gyda darparu cynlluniau tai personol.

6.22 Mae ymgynghoriad â chwsmeriaid yn rhan hanfodol o'r Adolygiad a Strategaeth Digartrefedd a bydd yn sicrhau bod y cwsmer yn ganolog i ddarpariaeth gwasanaeth a bod gwasanaethau yn cael eu datblygu mewn ymateb i'w hanghenion. Bydd gwasanaethau yn hygyrch, yn hyblyg ac yn ymatebol i anghenion bob aelwyd ddigartref, ac rydym yn gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth i gyd gynhyrchu gwasanaethau ac ymatebion atal. Byddwn yn sicrhau bod cwsmeriaid ynghlwm â chynllunio gwasanaethau a sut y byddant yn cael eu darparu; cyflawnir hyn trwy weithio tuag at y Safon Sail Gyfartal.

| **Beth y byddwn yn ei wneud i ddatblygu Gwasanaeth Dewisiadau Tai cadarn ac effeithiol** |
|---|
| 1. Datblygu Gwasanaeth Dewisiadau Tai o ansawdd uchel, hygyrch, ac sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid |
| 2. Yr adnoddau cywir yn y mannau cywir |
| 3. Archwilio'r angen am alinio dyraniadau a Dewisiadau Tai i greu gwasanaeth symlach i gwsmeriaid |
| 4. Gwella hygyrchedd y gwasanaeth trwy ddarparu cymorthfeydd estyn allan, cyngor ar-lein a dros y ffôn, ac archwilio cyfleoedd pellach ar gyfer darpariaeth gwasanaeth trwy ddefnyddio technoleg |
| 5. Datblygu agwedd integredig a chyfannol mewn partneriaeth i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol digartrefedd, trwy ddarpariaeth gwasanaeth wedi'i chydlynu, protocolau ar y cyd a threfniadau atgyfeirio effeithiol. |
| 6. Cynnwys egwyddorion sy'n canolbwyntio ar y person yn y gwasanaeth, a gweithio gyda chwsmeriaid i nodi eu cryfderau a gwella gwytnwch. |
| 7. Ymgymryd ag ymgyrch gwella ymwybyddiaeth mewn perthynas ag atal digartrefedd, ac yn benodol y Gwasanaeth Dewisiadau Tai. |

## Blaenoriaeth 2 - Darparu agwedd ymyrraeth gynnar ac atal wedi'i thargedu

6.23 Byddwn yn ymyrryd yn gynharach i atal digartrefedd. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn adnabod y sbardunau penodol, y ffactorau risg ac achosion digartrefedd. Yn seiliedig ar hyn, byddwn yn datblygu ystod o ymyraethau sydd wedi'u targedu yn benodol at ymateb i'r rhain.

6.24 Ar ôl cyflwyno Deddf Tai (Cymru) 2014, mae'r tîm Dewisiadau Tai wedi cael llwyddiant wrth atal digartrefedd, yn enwedig wrth gynorthwyo aelwydydd i gael tai cymdeithasol a llety rhent preifat, ond mae angen gwneud gwaith pellach i alluogi cwsmeriaid i aros yn eu llety presennol.

6.25 Byddwn yn gweithio gydag aelwydydd i'w galluogi i aros yn eu cartref presennol neu gynorthwyo i gynllunio i symud yn brydlon i lety addas a chynaliadwy. Byddwn yn gwneud hyn trwy ddarparu cyngor dewisiadau tai, cynlluniau tai personol ac atgyfeiriadau priodol i sefydliadau cefnogi.

6.26 Byddwn yn datblygu agweddau wedi'u targedu sy'n ymateb i brif achosion digartrefedd yn Wrecsam.

6.27 Mae Diwygio'r Gyfundrefn Les, pwysau economaidd, a rheoliadau newydd yn y sector rhentu preifat yn lleihau'r dewisiadau tai sydd ar gael i aelwydydd o oedran gwaith ar incwm isel. Mae'r argyfwng economaidd wedi arwain at ansicrwydd yn y farchnad waith, cyflogau is a chostau byw uwch, gan roi pwysau ar aelwydydd ar incwm isel.

6.28 Rhagwelir y bydd y ffactorau hyn yn parhau i roi pwysau cynyddol ar y gwasanaeth Dewisiadau Tai, ac felly mae angen adolygu modelau darparu i sicrhau agweddau effeithiol a strategol at reoli'r galw ar gwsmeriaid.

6.29 Mae gan yr holl asiantaethau sy'n gweithredu yn Wrecsam gyfle i leihau'r argyfwng tai yn eu grwpiau cleientiaid craidd. Gelir cyflawni hyn trwy weithio mewn modd wedi'i gydlynu yn well i adnabod yr aelwydydd hynny sydd mewn perygl o ddigartrefedd. Mae hyn yn cynnwys gallu adnabod y sbardunau ar gyfer digartrefedd a sicrhau y gall asiantaethau adnabod dangosyddion straen ar dai, a gallu gweithredu yn briodol i atal digartrefedd. Mae atal digartrefedd yn gyfrifoldeb ar bawb yn Wrecsam a byddwn yn gweithio gydag asiantaethau i sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth, y dulliau a'r sgiliau i gyflawni hyn.

6.30 Er mwyn cryfhau ein hagwedd at fynd i'r afael â digartrefedd, byddwn yn cael cefnogaeth gan y Cyngor llawn i atal digartrefedd. Byddwn yn ceisio ymrwymiad gan yr Aelodau ac Uwch Reolwyr yn yr holl feysydd gwasanaeth i gydweithio i ddarparu agwedd gyfannol a wedi'i chydlynu at atal digartrefedd.

Byddwn yn gweithio ar draws y Cyngor i ddatblygu agwedd wedi'i chydlynu at atal digartrefedd mewn ystod o wasanaethau a rhaglenni. Byddwn hefyd yn darparu arweiniad strategol gan ddod â'r holl bartneriaid allweddol ynghyd i gyflawni ein gweledigaeth i weithio mewn partneriaeth i atal a lleihau digartrefedd, ac atal yr angen i unrhyw un gysgu ar y stryd.

6.31 Byddwn yn parhau i gomisiynu a gweithio gyda'n partneriaid i ddarparu gwasanaethau atal digartrefedd wedi'u targedu. Bydd y gwasanaethau hyn wedi'u targedu yn effeithiol, yn hygyrch ac yn gallu ymateb i anghenion amrywiol yr holl gwsmeriaid, gan roi atebion arloesol a hyblyg.

| Beth y byddwn yn ei wneud i ddarparu agwedd ymyrraeth gynnar ac atal wedi'i thargedu |
|---|
| 1. Sicrhau bod gennym ymrwymiad corfforaethol cryf i agwedd wedi'i chydlynu i roi'r terfyn ar ddigartrefedd ym mhob gwasanaeth. |
| 2. Sicrhau bod digartrefedd yn cael ei atal trwy becyn atal digartrefedd effeithiol wedi'i dargedu at y prif achosion. |
| 3. Sicrhau bod dulliau effeithiol i atal diwedd tenantiaethau byrddaliad sicr yn arwain at ddigartrefedd, trwy gefnogi a chyfryngu yn effeithiol rhwng y landlord a'r tenant. |
| 4. Sicrhau bod gan bob staff fynediad at gyfleoedd hyfforddiant a datblygu priodol |
| 5. Mewn partneriaeth â Rheoli Ystadau a Chymdeithasau Tai, byddwn yn lleihau'r nifer sy'n cael eu troi allan o dai cymdeithasol |
| 6. Adnabod y sbardunau allweddol ar gyfer digartrefedd a gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod ganddynt y gallu i atal digartrefedd a/neu atgyfeirio yn ddi-dor pan fo angen. |

## Blaenoriaeth 3 - Gweithio i roi'r gorau i ddefnyddio llety gwely a brecwast a lleihau defnydd llety dros dro

6.32 Mae'r defnydd o lety dros dro a llety Gwely a Brecwast wedi cynyddu'n sylweddol yn Wrecsam. Er y bydd ein gwell agwedd fwriedig at atal ac ymyrraeth gynnar yn helpu i leihau lleoliadau newydd, mae angen sicrhau agwedd strategol mwy effeithiol at ddarpariaeth llety dros dro, ynghyd â gwell rheolaeth weithredol.

6.33 Byddwn yn cynnal adolygiad o'n hagwedd at lety dros dro i sicrhau ei fod yn diwallu'r anghenion cyfredol, yn atal y defnydd o lety gwely a brecwast ac yn cefnogi ein hagwedd fwriedig at ddefnyddio cynigion sector preifat i gyflawni'r ddyletswydd ddigartrefedd. Bydd yr adolygiad hwn yn ymateb i'r angen uniongyrchol, ond bydd hefyd yn cymryd agwedd tymor hirach i sicrhau model sy'n hyblyg ac yn ymateb i'r gofynion newidiol.

6.34 Byddwn yn parhau i ganfod llety dros dro mwy addas fel nad oes rhaid defnyddio lleoedd Gwely a Brecwast mwyach. Mae angen gwaith pellach i ddeall gofynion llety dros dro yn llawn, a sut fyddai orau i ddiwallu'r rhain.

6.35 Byddwn yn gweithio i leihau nifer yr aelwydydd a leolir mewn llety dros dro a lleihau cyfnod eu harhosiad. Byddwn yn gweithio gydag aelwydydd mewn llety dros dro i barhau i adolygu eu dewisiadau tai a chynllunio eu symud i lety mwy parhaol.

6.36 Byddwn yn sicrhau bod gan bob aelwyd mewn llety dros dro gynllun symud ymlaen wedi'i bersonoleiddio.

6.37 Byddwn yn ceisio defnyddio lletyau gwely a brecwast ar gyfer argyfyngau yn unig, a lle bydd fwyaf priodol i ddiwallu anghenion y defnyddiwr gwasanaeth, ond dim ond am y cyfnod y mae'n gwbl angenrheidiol. Yn y tymor hirach, byddwn yn ceisio rhoi'r gorau i ddefnyddio llety gwely a brecwast.

6.38 Byddwn yn gweithio yn agos gyda darparwyr llety a chefnogaeth, i sicrhau tra bod aelwydydd mewn llety dros dro, eu bod yn cael yr holl gyngor a chymorth sydd ei angen i'w galluogi i gael llety parhaol yn y dyfodol, a mynediad i hyfforddiant a chyflogaeth

| Beth y byddwn yn ei wneud i roi'r gorau i ddefnyddio llety gwely a brecwast a lleihau defnydd llety dros dro |
|---|
| 1. Cynnal adolygiad o ddefnydd llety dros dro, gan nodi defnydd i'r dyfodol a threfniadau darparu priodol |
| 2. Lleihau defnydd llety gwely a brecwast anaddas, a rhoi'r gorau i'w ddefnyddio yn y pen draw |
| 3. Datblygu polisi a gweithdrefn i gyflawni'r prif ddyletswydd digartrefedd gyda chynnig o lety yn y sector rhentu preifat |
| 4. Sicrhau bod llety priodol ar gael i unigolion 16 a 17 oed fel nad oes rhaid iddynt fynd i lety gwely a brecwast |
| 5. Datblygu ystod o drefniadau monitro, prosesau a mesurau rheoli perfformiad i fonitro a rheoli defnydd llety dros dro |

## Blaenoriaeth 4 - Gwella a datblygu mynediad i ystod o ddatrysiadau tai parhaol ac wedi'u cefnogi

6.39 Er mwyn gallu mynd i'r afael â digartrefedd yn Wrecsam mae angen i ni ddatblygu ystod o dai fforddiadwy a chynaliadwy, ochr yn ochr â gwella mynediad i ddarpariaeth bresennol.

6.40 Rydym wedi ymrwymo i ddarparu mwy o gartrefi i ddiwallu anghenion a'r galw yn lleol. Mae ein Strategaeth Dai newydd yn sefydlu ein nod i ddarparu tai i bawb, mewn cymunedau cryf sy'n darparu ac yn gofalu, ac sydd â gwasanaethau perthnasol sy'n cefnogi a datblygu ffyniant i'w drigolion.

6.41 Byddwn yn parhau i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'n stoc tai ein hunain wrth ddiwallu anghenion ein cymunedau, gan gynnwys y rhai sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref. Byddwn yn adolygu ein Polisi Dyraniadau yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn gweithio i'r rhai hynny sydd â'r angen mwyaf am dai, a chefnogi atal digartrefedd. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'n partneriaid Cymdeithas Tai i wella mynediad i bob math o dai cymdeithasol i gleientiaid sy'n ddigartref neu dan fygythiad digartrefedd.

6.42 Ochr yn ochr â'n hymrwymiad strategol i ddatblygu tai fforddiadwy, mae'r Cyngor yn cydnabod y swyddogaeth gynyddol bwysig y mae'r sector rhentu preifat yn ei chwarae wrth ddiwallu anghenion tai preswylwyr Wrecsam, gan gynnwys y rhai sy'n ddigartref neu dan fygythiad digartrefedd. Rydym wedi datblygu Asiantaeth Gosod Tai Lleol effeithiol yn llwyddiannus, ac rydym yn cydnabod yr angen i ehangu'r model llwyddiannus hwn ymhellach i gynyddu'r ddarpariaeth tai sector preifat sydd ar gael i Gleientiaid Dewisiadau Tai.

6.43 Byddwn yn datblygu proses sy'n sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswydd ddigartrefedd trwy gynnig eiddo addas yn y sector rhentu preifat. Rhagwelir y bydd yr agwedd hon yn tanategu a chryfhau'r cyngor tai presennol a gweithgareddau atal digartrefedd a sicrhau y gall aelwydydd digartref gael mynediad i lety addas a diogel. Er mwyn sicrhau cynaladwyedd y model tenantiaeth hwn, mae cefnogaeth effeithiol ac amserol i denantiaid a landlordiaid yn hanfodol.

6.44 Nododd yr Adolygiad Digartrefedd bod pobl sengl wedi'u heffeithio yn anghymesur gan ddigartrefedd yn Wrecsam, gyda phobl sengl yn rhoi cyfrif am 66% o'r holl gwsmeriaid Dewisiadau Tai. Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag anghenion tai a chefnogaeth pobl sengl yn Wrecsam. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid Rheoli Ystadau a Chymdeithasau tai, ochr yn ochr â'n hasiantaeth Osod Leol i ddatblygu cynlluniau peilot rhannu tai i ddiwallu anghenion pobl sengl yn y Sir. Byddwn yn hyrwyddo cynlluniau llety i berchnogion tai, a byddwn yn gweithio i ganfod cyfleoedd ar gyfer tenantiaid sy'n tanfeddiannu i osod ystafelloedd sbâr. Byddwn hefyd yn dysgu o'r cynlluniau arbrofol Tai yn Gyntaf sy'n gweithredu ledled Gogledd Cymru ac yn ystyried sut y gellir gweithredu egwyddorion Tai yn Gyntaf yn lleol.

6.45 Byddwn hefyd yn ystyried sut y gallwn ddefnyddio ein stoc tai ein hunain i ddiwallu'r galw uchel am lety person sengl, gan gynnwys ail ffurfweddu unedau dwy a thair ystafell wely i greu darpariaeth un ystafell wely.

6.46 Mae swyddogaeth tai â chymorth wrth atal digartrefedd yn hanfodol. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fuddsoddi mewn model tai â chefnogaeth sy'n gweithredu fel lle o

newid, wrth ddiwallu anghenion tai pobl ddigartref; a chefnogi pobl i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol digartrefedd, gan wella eu dyheadau, rhoi grym i newid a'u cynorthwyo i gael mynediad i hyfforddiant, addysg a chyflogaeth. Byddwn yn gweithio gyda darparwyr i sicrhau bod gwasanaethau ac arferion yn cael eu hysbysu yn seicolegol, ac adeiladu ar rinweddau'r unigolion a gefnogir.

6.47 Mae rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru yn ariannu ystod o lety tai â chefnogaeth a gwasanaethau cefnogaeth yn ôl yr angen i bobl sy'n ddigartref neu dan fygythiad digartrefedd yn Wrecsam. Nododd yr Adolygiad Digartrefedd bod y galw am lety â chefnogaeth yn uchel a bod anghenion cleientiaid yn dod yn gynyddol gymhleth. Felly mae'n hanfodol ein bod yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'n darpariaeth bresennol gan sicrhau bod atgyfeiriadau yn briodol ac yn seiliedig ar asesiad cynhwysfawr o angen, a bod swyddi gwag yn cael eu blaenoriaethu i'r rhai sydd â'r angen mwyaf.

6.48 I sicrhau y gall darpariaeth tai â chymorth ddiwallu anghenion cymhleth a niferus ein cwsmeriaid, byddwn yn cynnal asesiad o anghenion manwl o wasanaethau cefnogi yn ymwneud â thai, i ddeall anghenion cyfredol a dyfodol ein preswylwyr. Bydd hyn yn darparu'r sail ar gyfer strategaeth gomisiynu gadarn.

| **Beth y byddwn yn ei wneud i wella a datblygu mynediad i ystod o atebion tai parhaol ac wedi'u cefnogi** |
|---|
| 1. Ehangu'r Asiantaeth Osod Leol i gynyddu cyflenwad llety rhent preifat fforddiadwy. |
| 2. Sicrhau'r defnydd gorau o'r stoc tai cymdeithasol i atal a lliniaru digartrefedd. |
| 3. Datblygu agwedd wedi'i chydlynu at wella darpariaeth, a symud ymlaen o lety â chymorth i ddiwallu anghenion a nodwyd. |
| 4. Sicrhau bod gwasanaethau cefnogi yn ymwneud â thai yn cael eu hadolygu, ac yn diwallu anghenion ein preswylwyr trwy asesiad anghenion manwl, a datblygu strategaeth gomisiynu. |
| 5. Datblygu ystod o ddewisiadau tai fforddiadwy i bobl sengl. |

## Blaenoriaeth 5 - Rhoi diwedd ar yr angen i unrhyw un gysgu ar y stryd yn Wrecsam

6.49 Drwy'r strategaeth hon rydym wedi ymrwymo i sicrhau y gallwn roi terfyn ar yr angen i unrhyw un gysgu ar y stryd yn Wrecsam. Mae cysgu ar y stryd yn niweidiol i unigolion a chymunedau ac rydym yn credu na ddylai unrhyw un orfod cysgu ar y strydoedd.

6.50 Byddwn yn cyflawni lleihad mewn niferoedd sy'n cysgu ar y stryd a mynd i'r afael â'r niwed lluosog i unigolion a chymunedau trwy ymyrryd yn gyflym i gynnig llwybr oddi ar y stryd i bawb, gwella iechyd a llesiant a gwytnwch a mynd i'r afael â gweithgareddau ar y stryd sy'n gysylltiedig â chysgu ar y stryd.

6.51 Byddwn yn cynnal adolygiad cynhwysfawr yn ymwneud â chysgu ar y stryd er mwyn deall y materion mewn perthynas â chysgu ar y stryd yn y Fwrdeistref Sirol ac, yn hanfodol, asesu'r ddarpariaeth bresennol yn erbyn yr arfer gorau a deall pa newidiadau sydd eu hangen er mwyn dileu'r angen i gysgu ar y stryd. Bydd yr adolygiad hwn yn sail i Strategaeth Cysgu ar y Stryd.

6.52 Byddwn yn dileu'r angen i unrhyw un gysgu ar y stryd trwy dair ffrwd glir: atal, ymyrraeth ac adfer.

### Atal

6.53 Os byddwn yn lleihau'r niwed sylweddol a achosir gan gysgu ar y stryd, y peth pwysicaf y gallwn ei wneud yw ei atal rhag digwydd yn y lle cyntaf.

6.54 Ond, ni allwn wneud hyn ar ein pen ein hunain, yn hytrach mae angen i ni wneud yn siŵr bod y gefnogaeth gywir ar gael gan asiantaethau allweddol eraill, gan gynnwys gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol i oedolion, y carchar, y gwasanaeth prawf, yr heddlu, y system ofal a'r Ganolfan Waith sy'n cydweithio i gefnogi'r bobl mwyaf ddiamddiffyn, gyda gwasanaethau wedi'u sefydlu sy'n atal pobl rhag cyrraedd y pwynt o argyfwng.

6.55 Byddwn yn nodi'r sbardunau allweddol sy'n arwain at gysgu ar y stryd, a gweithio gydag asiantaethau partneriaeth i sicrhau bod y sbardunau allweddol a'r ffactorau risg hyn yn cael eu nodi, ac atgyfeiriadau yn cael eu gwneud.

6.56 Byddwn hefyd yn sicrhau bod gwaith atal effeithiol wedi'i dargedu at grwpiau sydd â mwy o debygolrwydd o ddod yn ddigartref a chysgu ar y stryd.

6.57 Byddwn yn gweithio i ddatblygu prosiect Rhywle Diogel i Aros a fydd yn sicrhau nad oes rhaid i unrhyw un sydd mewn perygl o orfod cysgu ar y stryd wneud hynny.

### Ymyrraeth

6.58 Byddwn yn darparu ymyrraeth gyflym i bawb sy'n cysgu ar y stryd a fydd yn cynnig llwybr oddi ar y strydoedd i bawb, trwy wasanaeth estyn allan pendant, sy'n gweithio yn effeithiol a chyflym gyda'r rheiny sy'n newydd i'r strydoedd, ochr yn ochr â chefnogi unigolion sy'n cysgu ar y stryd ers peth amser i gael llety a chefnogaeth. Bydd yr agwedd estyn allan ochr yn ochr ag agwedd glir at ailgysylltu wedi'i gefnogi ar gyfer y rhai heb gysylltiadau â Wrecsam, i sicrhau bod unigolion yn cysylltu yn ôl â'r rhwydweithiau cefnogi cyfredol.

6.59 Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant y Ganolbwynt Gofal amlasiantaeth ac yn gweithio yn effeithiol gyda'n partneriaid a darparwyr i ddatblygu darpariaeth gwasanaeth dydd strwythuredig. Byddwn yn sicrhau bod pob gwasanaeth yn effeithiol ac yn ymateb i anghenion rhai sy'n cysgu ar y stryd, yn herio ffordd o fyw ar y stryd ac yn gweithio i roi diwedd i gysgu ar y stryd trwy fodel cyfnewid trafodaethol.

6.60 Byddwn yn sicrhau nad oes rhaid i unrhyw un yn Wrecsam gysgu ar y stryd trwy greu llwybr llety clir o'r strydoedd i ystod o ddewisiadau llety, a fydd yn cynnwys datblygu cynnig Dim Ail Noson Allan. Byddwn yn sicrhau bod darpariaeth mynediad uniongyrchol yn cefnogi taith glir o'r strydoedd i gefnogaeth, gan gynnig sefydlogrwydd ac agwedd sy'n canolbwyntio ar y person ac yn wybodus yn seicolegol.

6.61 Mae llawer o dystiolaeth i awgrymu bod digartrefedd, yn enwedig cysgu ar y stryd, yn arwain at ganlyniadau sylweddol a niweidiol i iechyd unigolion. Mae'n cael ei gydnabod yn eang bod cysylltiad cryf rhwng digartrefedd a chyflyrau iechyd corfforol a meddwl difrifol, yn ogystal â disgwyliadau oes sylweddol is. Byddwn yn gweithio i wella mynediad i wasanaethau iechyd i bobl sengl ddigartref i fynd i'r afael ag anghenion uniongyrchol ac yn y tymor hir, gan sicrhau eu bod yn cael yr un dewisiadau mewn perthynas â chael gwasanaeth gofal iechyd â gweddill y boblogaeth, tra'n cydnabod efallai na fydd pobl ddigartref yn ei chael yn hawdd cael mynediad i ddarpariaeth gwasanaeth prif ffrwd.

6.62 Byddwn yn datblygu agwedd wedi'i chydlynu at fynd i'r afael â gweithgareddau ar y stryd sy'n gysylltiedig â chysgu ar y stryd, begera, yfed ar y stryd, a chamddefnyddio sylweddau, gan sicrhau bod y niwed a achosir gan yr ymddygiad yn cael ei leihau.

6.63 Ni fydd pobl sydd ynghlwm â'r gweithgareddau hyn bob amser yn cysgu ar y stryd, ond fel gyda phobl sy'n cysgu ar y stryd bydd ganddynt ystod o anghenion tai a chefnogaeth, a byddant yn aml yn ddiamddiffyn neu'n cyfrannu at natur ddiamddiffyn eraill.

6.64 Fel yr ateb olaf, ac yn gysylltiedig â chefnogaeth, byddwn yn cymryd camau gorfodi yn erbyn unigolion a grwpiau sy'n parhau ag ymddygiad o'r fath.

6.65 Byddwn yn sicrhau bod pobl ddiamddiffyn sydd wedi'u dadleoli o ganlyniad i gamau gorfodi yn cael eu diogelu a bod ganddynt gynllun i'w hatal rhag gorfod cysgu ar y stryd.

## Adfer

6.66 Mae cartref diogel a sefydlog yn hanfodol i adferiad. Y cyflymaf y gallwn weithio gyda phobl sy'n cysgu ar y stryd a dod o hyd i lety iddynt, y cyflymaf y gallwn ddechrau eu helpu i sicrhau dyfodol newydd.

6.67 Byddwn yn sicrhau bod ystod o ddewisiadau llety ar gael i ddiwallu anghenion amrywiol y grŵp cleientiaid hwn, gan gynnwys agwedd ailgartrefu cyflym.

6.68 Byddwn yn sicrhau bod llety wedi'i gysylltu â darpariaeth cefnogaeth hyblyg, y gellir ei ddwysau neu ei leihau yn dibynnu ar anghenion yr unigolyn, ochr yn ochr â gweithio yn y tymor hir i greu mynediad i addysg, cyflogaeth a chyfleoedd hyfforddiant.

| Beth y byddwn yn ei wneud i roi diwedd ar yr angen i unrhyw un gysgu ar y stryd yn Wrecsam |
|---|
| 1. Cynnal adolygiad cynhwysfawr yn ymwneud â chysgu allan er mwyn deall pa newidiadau sydd eu hangen er mwyn dileu'r angen i gysgu ar y stryd. |
| 2. Datblygu a mabwysiadu Strategaeth Cysgu ar y Stryd |
| 3. Gweithio i atal unrhyw un rhag cysgu ar y stryd yn Wrecsam |
| 4. Datblygu ymyrraeth gyflym i bawb sy'n cysgu ar y stryd trwy wasanaeth estyn allan pendant, a chefnogaeth i ailgysylltu. |
| 5. Datblygu gwasanaethau dydd strwythuredig i ymgysylltu ag unigolion sy'n cysgu ar y stryd, eu cefnogi yn eu taith oddi ar y strydoedd a darparu cyfleoedd i adfer |
| 6. Datblygu llwybr llety clir oddi ar y strydoedd i ystod o ddarpariaeth llety, yn seiliedig ar egwyddorion Dim Ail Noson Allan |
| 7. Datblygu agwedd wedi'i chydlynu mewn partneriaeth at fynd i'r afael â gweithgareddau ar y stryd |
| 8. Gweithio gydag asiantaethau partneriaeth i sicrhau bod pob gweithgaredd yn canolbwyntio ar gefnogi cleientiaid i adael y strydoedd, a pheidio parhau â'u ffordd o fyw ar y stryd. |
| 9. Gwella mynediad i wasanaethau iechyd, a chanlyniadau iechyd i bobl sy'n cysgu ar y stryd |

## Blaenoriaeth 6 - Diwallu anghenion tai a chefnogaeth cleientiaid gydag anghenion niferus a chymhleth

6.69 Rydym yn cydnabod y gall lawer o bobl ddigartref fod ag anghenion niferus a chymhleth. Mae gan lawer ffordd o fyw fyrhoedlog, a gall cymhlethdod eu hanghenion eu hatal neu eu heithrio thag gallu cael mynediad neu ymgysylltu â llety neu wasanaethau prif ffrwd.

6.70 I lawer o bobl, nid yw digartrefedd yn fater yn ymwneud â thai yn unig, mae'n cysylltu yn agos â phrofiadau bywyd cymhleth a chaotig. Yn aml, bydd problemau iechyd meddwl, dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol a phrofiadau yn y carchar neu yn y system ofal yn cysylltu yn agos â phrofiadau digartrefedd. Mae'r materion hyn yn gymhleth ac yn aml mae eu gwreiddiau yn ddwfn mewn anfantais, gan adael pobl wedi'u heithrio yn gymdeithasol ac economaidd.

6.71 Ni allwn fynd i'r afael â digartrefedd a chysgu ar y stryd yn llwyddiannus heb fynd i'r afael ag anghenion niferus y cleientiaid, ac i wneud hyn mae'n rhaid i ni weithio mewn partneriaeth. Mae mynd i'r afael ag un o'r anghenion cefnogaeth yn gwbl ar wahân i'r lleill yn annhebygol o arwain at ganlyniadau llwyddiannus i bobl sy'n wynebu problemau cymhleth. Felly, mae angen i ni ddatblygu agweddau cyfannol at adfer, gan gefnogi cleientiaid i fynd i'r afael â'u holl anghenion ar yr un pryd. Mae'r llwybr ariannu hyblyg yn rhoi cyfleoedd i fynd i'r afael â digartrefedd a'i atal rhag digwydd eto trwy gomisiynu gwasanaethau ar y cyd i fynd i'r afael â lluosogrwydd yr anghenion y mae unigolion a theuluoedd digartref cymhleth yn eu wynebu. Mae angen i ni sicrhau bod yr holl wasanaethau yn adnabod y trawma y mae unigolion digartref wedi'u profi, a'u bod yn wybodus yn seicolegol.

6.72 Nododd yr Adolygiad Digartrefedd bod nifer uchel iawn o achosion cymhleth, gan gynnwys pobl sengl a theuluoedd gydag anghenion niferus a heriol. Mae angen gwell dealltwriaeth ansoddol a meintiol o'r materion hyn i ganfod a yw'r ddarpariaeth bresennol yn diwallu anghenion yr aelwydydd hyn.

6.73 Mae cyn garcharorion yn nifer sylweddol iawn o'r cwsmeriaid Dewisiadau Tai, a dyma'r ail achos mwyaf cyffredin o ddigartrefedd yn Wrecsam. Byddwn yn gweithio gyda'r system gyfiawnder troseddol i sicrhau fod y Llwybr Carcharorion yn gweithio'n llawer mwy effeithiol gan arwain at ymagwedd mwy cydgysylltiedig a gwell cymorth i bobl sy'n gadael y carchar.

6.74 Mae camddefnyddio sylweddau, yn enwedig y defnydd gweledol o Sylweddau Seicoweithredol Newydd (NPS) yn fater sylweddol yn Wrecsam. Yn benodol, mae cysylltiad cryf iawn rhwng defnyddio NPS a chysgu ar y stryd yn Wrecsam, gydag unigolion â llety yn dewis cysgu ar y stryd oherwydd defnydd cyffuriau gydag eraill yng nghanol y dref. Er mwyn mynd i'r afael â chysgu ar y stryd yn llwyddiannus, rydym angen gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â defnydd NPS a sylweddau eraill yn y dref, ochr yn ochr â mynediad cyflym i driniaeth.

6.75 Nododd yr adolygiad hefyd lefel uchel o achosion digartrefedd y canfuwyd a oedd yn fwriadol ddigartref. Er mwyn paratoi i ddileu bwriadoldeb ar gyfer teuluoedd digartref, byddwn yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Plant, Rheoli Ystadau a Chymdeithasau Tai i ddatblygu agwedd integredig at weithio gyda theuluoedd

cymhleth, trwy ddarparu llety, cefnogaeth ddwys a chanolbwyntio ar fynd i'r afael ag achosion sylfaenol digartrefedd.

6.76 Drwy gydol yr Adolygiad roedd y broblem iechyd meddwl yn thema sy'n ailadrodd, ochr yn ochr â diffyg ymateb ataliol gan wasanaethau iechyd meddwl, gydag ymgysylltiad ond yn digwydd yn y pwynt argyfwng, bydd hyn fel arfer yn meddwl bod llety'r person wedi'i golli erbyn hyn. Rydym eisiau adeiladu ar lwyddiant y Gweithiwr Estyn Allan Iechyd Meddwl yn y tîm Dewisiadau tai, trwy weithio ar y cyd â gwasanaethau iechyd meddwl i sicrhau agwedd cysylltiedig at atal. Mae angen i ni sicrhau ymateb gan arbenigwyr iechyd meddwl i atal gwaethygiad mewn iechyd meddwl, gan osgoi argyfwng ac atal digartrefedd

6.77 Nododd yr Adolygiad Digartrefedd bod pobl ifanc yn gynyddol dan anfantais effaith gyfunol diweithdra uchel, incwm isel, diwygio'r gyfundrefn les, a dewisiadau tai cyfyngedig. Mae cyfran gynyddol o bobl ifanc yn gadael gofal neu'n datgan eu bod yn ddigartref o gartref eu teulu gydag anghenion cymhleth – er enghraifft, cyfuniad o broblemau iechyd meddwl, problemau ymddygiad, camddefnyddio sylweddau, ac ymddygiad sy'n tramgwyddo. Nid yw eu hanghenion yn cyd-fynd ag unrhyw un maes gwasanaeth a gall ymatebion o asiantaethau sector cyhoeddus fod yn dameidiog, yn adweithiol, yn aneffeithiol ac yn gostus. Nododd yr adolygiad bod pobl ifanc wedi'u gorgynrychioli yn y boblogaeth ddigartref yn Wrecsam

6.78 Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pobl ifanc yn Wrecsam yn cael y dechrau gorau mewn bywyd ac yn gallu datblygu yn dda fel y gallant gyflawni eu potensial a diwallu eu dyheadau.

6.79 I atal digartrefedd yn effeithiol byddwn yn ymyrryd cyn gynted â phosibl i atal ansefydlogrwydd tai a digartrefedd rhag digwydd neu barhau. Bydd atal yn canolbwyntio ar gefnogi pobl ifanc i aros gartref gyda'u teulu neu mewn rhwydweithiau teulu ehangach, lle bo'n briodol a diogel i wneud hynny. Os yw pobl ifanc yn ddigartref, byddwn yn comisiynu gwasanaethau arbenigol i ddarparu seibiant, argyfwng a llety tymor hir a chefnogaeth a all fynd i'r afael ag anghenion tai a chefnogaeth y person ifanc yn effeithiol, gan gynnwys pobl ifanc ag anghenion niferus a chymhleth.

6.80 Byddwn yn comisiynu gwaith addysg mewn ysgolion a darpariaeth ieuenctid arall a datblygu platfformau cyfryngau cymdeithasol i wella ymwybyddiaeth o'r dewisiadau tai sydd ar gael a realiti a risgiau digartrefedd. Byddwn yn sicrhau bod llwybrau gwasanaeth wedi'u cynllunio a'u hintegreiddio i ddiwallu anghenion pobl ifanc sy'n profi ansefydlogrwydd tai a digartrefedd.

6.81 Byddwn yn diogelu pobl ifanc sydd mewn perygl oherwydd ansefydlogrwydd tai neu ddigartrefedd. Byddwn yn gweithio i sicrhau nad yw gadawyr gofal yn dod yn ddigartref ar ôl gadael gofal trwy ddatblygu llwybr tai a chefnogaeth glir a sicrhau diogelwch.

| Beth y byddwn yn ei wneud i ddiwallu anghenion tai a chefnogaeth cleientiaid gydag anghenion niferus a chymhleth |
|---|
| 1. Atal digartrefedd ymysg ieuenctid trwy addysg, mentora cyfoedion, cyfryngu a llety seibiant mewn argyfwng |
| 2. Datblygu llety effeithiol a llwybr cefnogi i adawyr gofal |
| 3. Ailfodelu gwasanaethau cefnogi yn seiliedig ar letyau i sicrhau agwedd integredig sy'n diwallu anghenion pobl gydag anghenion niferus a chymhleth |
| 4. Datblygu agwedd integredig at weithio gyda theuluoedd cymhleth i sicrhau bod digartrefedd a digartrefedd dro ar ôl tro yn cael ei atal. |
| 5. Sicrhau bod y llwybr carcharorion yn gweithio yn effeithiol i atal digartrefedd ar ôl cael eu rhyddhau o'r ddalfa |
| 6. Gwella canlyniadau tai i gleientiaid ag iechyd meddwl gwael |
| 7. Gwella canlyniadau tai i gleientiaid ag iechyd meddwl gwael |

# 7. Llywodraethu a Darparu'r Strategaeth Ddigartrefedd

7.1 Er mwyn diwallu ein hymrwymiad i gyflawni'r blaenoriaethau strategol, mae angen i ni sicrhau, ynghyd â'n partneriaid, bod gennym y sgiliau, y gwasanaethau, yr adnoddau, a'r isadeiledd ar gyfer cyflawni amcanion y Strategaeth.

7.2 I gyflawni'r blaenoriaethau strategol ac amcanion, datblygwyd cynllun gweithredu mewn partneriaeth â phartneriaid a budd-ddeiliaid i amlinellu camau gweithredu allweddol i'w cyflawni dros oes y strategaeth.

7.3 Y Grŵp Llywio Atal Digartrefedd fydd yn gyfrifol am ddarparu a monitro'r Strategaeth Ddigartrefedd a'r cynllun gweithredu. Bydd y cynllun gweithredu yn cael ei fonitro yn chwarterol a'i adolygu yn flynyddol er mwyn ymateb i anghenion sy'n dod i'r amlwg, newidiadau polisi a deddfwriaethol a chyflawni'r blaenoriaethau oddi mewn iddo.

7.4 Bydd y Grŵp Llywio Atal Digartrefedd yn cyfrannu at Gynghrair Tai Wrecsam a fydd yn sicrhau trefniadau llywodraethu effeithiol, ochr yn ochr ag agwedd gynhwysfawr ac wedi'i gydlynu at atal digartrefedd.

7.5 Mae agwedd wedi'i chydlynu yn hanfodol i gyflawni'r cynlluniau uchelgeisiol ac arloesol yn y strategaeth hon, a diwallu gweledigaeth Wrecsam ar gyfer digartrefedd.

7.6 Trwy ddarparu'r newid i'r system gyfan, rydym wedi ymrwymo i leihau ac atal digartrefedd a rhoi diwedd ar yr angen i gysgu ar y stryd yn Wrecsam.

7.7 Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn parhau i gyfrannu at ddarpariaeth Strategaeth Ddigartrefedd Gogledd Cymru i sicrhau agwedd ranbarthol effeithiol ar y cyd i fynd i'r afael â digartrefedd yng Ngogledd Cymru.

# 8. Comisiynu Gwasanaethau Digartrefedd

8.1 Bydd y Cyngor yn comisiynu gwasanaethau sy'n cefnogi a chyfrannu yn uniongyrchol at ddiwallu'r amcanion a nodwyd yn y strategaeth hon.

8.2 Bydd y Strategaeth Ddigartrefedd yn hysbysu'r Cynllun Comisiynu Lleol Cefnogi Pobl. Bydd gwasanaethau yn cael eu comisiynu sy'n diwallu'r amcanion sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth hon, a blaenoriaethau'r Cynllun Comisiynu Lleol.

8.3 Bydd comisiynu gwasanaethau digartrefedd yn Wrecsam yn seiliedig ar y strwythur darparu ar gyfer y rhaglen Cefnogi Pobl yng Nghrymu, gan ganolbwyntio ar weithio yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i gyflawni:

- Gwelliant i wasanaethau
- Uniondeb, atebolrwydd, tryloywder a chraffu
- Gweithredu yn seiliedig ar egwyddorion cydraddoldeb, cydweithio a chydgynhyrchu
- Darparu goruchwyliaeth a chyfeiriad strategol yn unol â'r strategaeth genedlaethol, rhanbarthol a lleol a chynlluniau Comisiynu Cefnogi Pobl
- System wedi'i thanategu gan drefn llywodraethu gadarn y gellir ei gorfodi.

# Atodiad 1: Cyd-destun Strategol

Datblygwyd Strategaeth Ddigartrefedd Wrecsam yng nghyd-destun ystod eang o bolisïau, strategaethau a chynlluniau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae'r rhain yn cael eu trafod mewn manylder sylweddol yn yr Adolygiad Digartrefedd, ond mae'r rhai allweddol wedi'u nodi isod.

## Y Cyd-destun Strategol Cenedlaethol

### Y Strategaeth Dai Genedlaethol – 'Gwella Bywydau a Chymunedau - Cartrefi yng Nghymru'

Mae'r Strategaeth yn cydnabod nad yw buddsoddi mewn tai yn ymwneud â materion brics a morter yn unig, ac eithrio gwella cartrefi pobl, mae'n dod â buddion i bobl hefyd, gan gyfrannu at wella eu hiechyd, lles ac ansawdd eu bywydau.

Blaenoriaethau'r Strategaeth yw:

- Darparu rhagor o'r math cywir o dai a chynnig mwy o ddewis;
- Gwella cartrefi a chymunedau, gan gynnwys effeithlonrwydd ynni cartrefi newydd a phresennol;
- Gwella gwasanaethau a chefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai, yn enwedig ar gyfer pobl ddiamddiffyn a phobl o grwpiau lleiafrifol.

### Cynllun Digartrefedd Deng Mlynedd ar gyfer Cymru

Yn 2009, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Gynllun Digartrefedd 10 Mlynedd ar gyfer Cymru. Mae'r Cynllun Deng Mlynedd yn amlinellu rhai egwyddorion arweiniol ar gyfer datblygu a darparu gwasanaethau digartrefedd.

Yr amcanion strategol sy'n sail i'r Cynllun yw:

- Atal digartrefedd lle bynnag y bo modd;
- Gweithio ar draws ffiniau sefydliadol a pholisi;
- Gosod y defnyddiwr gwasanaeth yn ganolbwynt i ddarpariaeth gwasanaeth;
- Sicrhau cynhwysiad cymdeithasol a chydraddoldeb mynediad at wasanaethau;
- Gwneud y defnydd gorau o adnoddau.

### Deddf Tai (Cymru) 2014

Creodd rhan dau Deddf Tai (Cymru) 2014 newidiadau lluosog yn y dyletswyddau sydd gan Awdurdodau Lleol tuag at bobl sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys:

- Dyletswyddau newydd i awdurdodau lleol i helpu i atal digartrefedd i unrhyw un sy'n gofyn am gymorth

- Cynnwys pobl wrth ddylunio eu datrysiadau eu hunain, drwy ddatblygu Cynllun Tai Personol ar y cyd, gan edrych ar broblemau tai uniongyrchol a hefyd ar unrhyw broblemau gwaelodol
- Ymyrryd yn fuan - o fewn 56 diwrnod o fod yn ddigartref - i atal sefyllfaoedd pobl rhag gwaethygu a mynd yn draed moch
- Dileu angen blaenoriaethol awtomatig ar gyfer pobl sy'n gadael carchar
- Gosod dyletswyddau newydd ar gymdeithasau tai i gydweithredu i atal digartrefedd
- Caniatáu awdurdodau lleol i gyflawni dyletswyddau digartrefedd drwy ddarparu llety rhent preifat heb ganiatâd yr ymgeisydd.

## Rhentu Doeth Cymru

Cyflwynodd Deddf Tai (Cymru) 2014 hefyd y gofyniad i bob landlord preifat fod wedi eu cofrestru. Mae Rhentu Doeth Cymru yn sicrhau fod pob eiddo rhent preifat yng Nghymru a'u landlordiaid yn cael eu henwi ar gofrestr ganolog. Yn ogystal, rhaid i landlordiaid sy'n rheoli eu hunain ac asiantau sy'n gosod ac yn rheoli eiddo gael trwydded. Er mwyn cael trwydded, rhaid i bobl gael eu hyfforddi yn eu hawliau a'u cyfrifoldebau wrth rentu eiddo i denantiaid.

## Safon Tir Cyfartal

Mae'r Safon Tir Cyfartal yn amlinellu canllawiau o ran y safon o wasanaeth y dylai pobl dderbyn pan fyddant yn dod i gysylltiad â gwasanaethau digartrefedd Cymru. Bydd sefydliadau sy'n ymrwymo i'r Safon Tir Cyfartal yn dangos eu hymrwymiad i ddarparu gwasanaeth o safon sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Datblygwyd y Safon gan ddefnyddwyr gwasanaethau tai a digartrefedd blaenorol a phresennol drwy Brosiect Daliwch Sylw Shelter Cymru.

## Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella lles pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth, ac yn trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn newid sut yr asesir anghenion pobl a sut y darperir gwasanaethau, er mwyn i bobl gael mwy o farn am y gofal a'r gefnogaeth y maent yn eu derbyn.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gorfodi cyrff cyhoeddus i gyflawni eu swyddogaethau mewn modd cynaliadwy sy'n gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol – yn ymarferol, mae hyn yn golygu darparu gwasanaethau ataliol, gan ystyried anghenion tymor hir a byr, a gweithio ar y cyd â phartneriaid i gyflawni gwell canlyniadau ac osgoi dyblygu.

## Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

Bydd Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) yn ei gwneud yn symlach ac yn haws i rentu cartref, gan ddisodli darnau amrywiol a chymhleth o ddeddfwriaeth gyfredol gydag un fframwaith cyfreithiol clir.

Gyda nifer cyfyngedig o eithriadau, mae'r ddeddf yn disodli pob tenantiaeth a thrwydded gyfredol gyda dim ond dau fath o gontractau meddiannaeth:

- contract diogel – wedi ei fodelu ar y denantiaeth ddiogel bresennol a roddir gan Awdurdodau Lleol
- contract safonol – wedi ei fodelu ar y denantiaeth fyrddaliol sicr bresennol a ddefnyddir gan y sector rhentu preifat.

## Diwygio'r Gyfundrefn Les

Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno cyfres o ddiwygiadau lles a newidiadau lles i waith dan ddarpariaeth Deddf Diwygio'r Gyfundrefn Les 2012. Mae Diwygiadau Lles yn cynnwys cyflwyno Credyd Cynhwysol, newidiadau i Reoliadau Budd-Dal Tai, a chyflwyno cap ar faint o fudd-daliadau a all pobl o oedran gwaith ei dderbyn.

# Y Cyd-destun Strategol Rhanbarthol a Lleol

## Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cefnogi Pobl Gogledd Cymru

Mae sefydlu Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cefnogi Pobl Gogledd Cymru yn 2012 wedi caniatáu trosolwg strategol ar ddatblygiadau sy'n effeithio ar Cefnogi Pobl yn lleol ac yn rhanbarthol drwy rannu gwybodaeth yn well. Mae hyn yn cyflwyno cyfleoedd i weithio'n agosach yn rhanbarthol rhwng Timau Cefnogi Pobl ar draws Gogledd Cymru, sy'n gyfle ychwanegol ar gyfer creu arbedion effeithlonrwydd trwy Gynllun Comisiynu Strategol Gogledd Cymru 2017, sy'n nodi'r blaenoriaethau a ganlyn:

- Camdriniaeth Domestig
- Ailsefydlu ar ôl gadael y carchar
- Cysgu ar y stryd
- Anableddau Dysgu

## Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gorchymyn fod Awdurdodau Lleol yn asesu anghenion gofal a chymorth y boblogaeth ac anghenion cymorth gofalwyr.

Mae pennod digartrefedd yr asesiad yn awgrymu bod Deddf Tai (Cymru) 2014 yn cael effaith gadarnhaol ond bod newidiadau yn parhau, gydag angen am fwy o waith ar y cyd i ganolbwyntio ar atal, gan gynnwys ymateb i effaith Diwygio'r Gyfundrefn Les a mynd i'r afael â bylchau mewn gwasanaethau i bobl sengl, a darpariaeth arbenigol.

## Asesiad Poblogaeth Cynllun Rhanbarthol Gogledd Cymru 2018-23

Mewn perthynas â Thai a Digartrefedd, mae'r Cynllun yn nodi'r canlynol:

- Mae angen cymorth tai ar bobl sy'n gadael carchar
- Mae newidiadau i fudd-daliadau lles yn effeithio ar fywydau pobl.
- Mae angen tai arbenigol.
- Mae angen i wasanaethau tai ac iechyd meddwl gydweithio.

## Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2017-2022

Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol Drafft yw

- Cefnogi economi cynaliadwy a ffyniannus
- Pobl - Cefnogi cymunedau gweithgar a hunanddibynnol ac amddiffyn y rheiny mewn angen
- Lle - Cefnogi amgylchedd cynaliadwy a ffyniannus
- Sefydliad - Creu sefydliad effeithlon ac effeithiol sydd yn y sefyllfa orau i gefnogi lles pobl leol

## Strategaeth Tai Lleol Wrecsam 2013-18

Mae'r Strategaeth Tai hon yn amlinellu'r cyfeiriad y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn symud iddo o ran tai a materion tai dros y pum mlynedd nesaf.

Tair thema'r Strategaeth yw:

- Mwy o Dai, Mwy o Ddewis
- Gwella Cartrefi a Chymunedau – atal diffyg atgyweirio a chodi ansawdd tai
- Gwasanaethau gwell i wella bywydau pobl

Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i ddiweddaru'r Strategaeth.

## Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl Wrecsam 2016/17-2018/19

Gweledigaeth Cefnogi Pobl Wrecsam yw 'Cefnogi pobl i wella ansawdd eu bywydau'

Blaenoriaethau strategol presennol Cefnogi Pobl yw:

- Gweithiwr Allgymorth Cysgu Allan
- Cynllun Anghenion Cymhleth ar gyfer Pobl Ifanc
- Porth Atgyfeirio
- Gweithredu Deddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

- Gwasanaeth newydd ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu.
- Gwasanaeth newydd ar gyfer pobl gyda phroblemau alcohol a chyffuriau a /neu ymddygiad troseddol
- Cyfraniad strategol at ddatblygu gwasanaethau
- Ymchwilio i sut i ddiwallu anghenion pobl gyda phroblemau iechyd meddwl lefel isel
- Gwerthuso'r rhwystrau a'r datrysiadau i dderbyn llety symud ymlaen